


# Valleys Heritage Pioneers

## Hetty's Trail



→ Hetty : VALLEYS PIONEER | ARLOESWYR Y CYMOEDD ←

### Hello, I'm Hetty – a Valleys Pioneer!

*...one of the hundreds of thousands of people who came here in search of a better life during the Industrial Revolution. My family came over the hills from Carmarthenshire, leaving behind our lives on the farm. Our adventure led us to the glowing skies of the ironworks – it was like walking in to hell!*

*To follow in my pioneering footsteps and see how my adventure turned out, why not follow my trail.*

*Visit the three sites below to meet me, as you follow my story...*

#### Cyfarthfa Castle 1872 – Hetty is 11 years old

*My family has just moved here from near Carmarthenshire so that my father can find work in the ironworks. My mother is expecting a baby – that'll make 5 of us children! So, as the eldest, I've had to go out and find work to help support the family.*

*I have started as a scullery maid in the big house owned by the Crawshays. They have a lovely home and I am told that I am very lucky to have found employment there! Every day I stoke the kitchen range first thing in the morning and then I empty the chamber pots. After that I clean the passage, pantry, kitchen and scullery and wash the pots when the cook has finished making the breakfast. Throughout the day I help prepare vegetables, clean up and wash pots. It is a long day, sometimes from 5 in the morning until 10 at night – so when I finish, I fall in to bed and sleep like the dead. In my dreams I grow up to marry a gentleman and live in a big house just like the mistress!*

## Pontypridd Museum 1877 – Hetty is 16 years old

*I come here to chapel for Sunday services and in the week, if I can. I love chapel – it gives me a life outside work – and a promise of better things to come.*

*We moved to Pontypridd about a year ago because Dad got a job in the big chain works. It was quite a promotion and now we have a whole house to ourselves – better than sharing like we did in Merthyr.*

*The chain works is famous – Brown Lenox it's called. It even made chains for Mr Brunel's ships.*

## Elliott's Colliery 1883 – Hetty is 22 years old

*I married two years ago this December. Now my Wyn is starting a work in a fancy new Colliery. He'll be one of the first to be part of the 'super pit' in the Rhymney Valley! I can't tell you how proud I am! He has been hired to help sink the West Shaft, along with the other boys and between them they are all set to change history! What's more, we have just found out that we are expecting our first child so it's a double celebration for us! Times have always been hard, but I can feel our luck changing. We are set for big things!*

### What happened next???

Why not make up your own end to Hetty's story – did she visit the big port in Cardiff, or was she near Senghenydd when the first disaster struck in 1901? There are loads more sites to inspire your version of events – [take a look at our list](#). Just make sure you check opening times before setting out!

Send us your images and storylines via Facebook (The Valleys That Changed The World) or Twitter @TVTCTW.

**Enjoyed this trail? Download more at [www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers](http://www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers)**

*Please note, Hetty is a fictional character but the sites and events mentioned in her story are real.*

**Hello, I'm Hetty – a Valleys Pioneer!**

One of the hundreds of thousands of people who came here in search of a better life during the Industrial Revolution. My family came over the hills from Carmarthenshire, leaving behind our lives on the farm. Our adventure led us to the glowing skies of the ironworks – it was like walking in to hell!

To follow in my pioneering footsteps and see how my adventure turned out, why not follow my trail?

You can download it at [www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers](http://www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers). You'll encounter some great heritage sites on your way and who knows – we may meet again! *Hetty*

---


**Helo, Hetty ydw i – un o Arloeswyr y Cymoedd!**

Dw i'n un o gannoedd o filoedd o bobl a ddaeth yma yn ystod y Chwyldro Diwydiannol i chwilio am fywyd gwell. Daeth fy rheulu dros y bryniau o Sir Gaerfyrddin, gan adael ein bywyd ar y fferm i fynd i fydd newydd. Ar ddiwedd ein taith gwelsom awyr wenfflam y gwaith haearn – roedd fel cerdded i mewn i uffern! I gerdded yn fy esgidiau arloesol innau a gweld sut antur gefais i, beth am ddilyn fy llwybr? Gallwch lawrlwytho copi ar [www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers](http://www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers). Byddwch yn gweld safleoedd treftadaeth gwych a, pwys a wyr, efallai y cawn gwrrd eto! *Hetty*

 Wales  
Cymru

# Arloeswyr Treftadaeth y Cymoedd

## Llwybr Hetty



### Helo, Hetty ydw i – un o Arloeswyr y Cymoedd!

...dw i'n un o gannoedd o filoedd o bobl a ddaeth yma yn ystod y Chwyldro Diwydiannol i chwilio am fywyd gwell. Daeth fy nheulu dros y bryniau o Sir Gaerfyrddin, gan adael ein bywyd ar y fferm i fynd i fyd newydd. Ar ddiwedd ein taith gwelsom awyr wenfflam y gwaith haearn – roedd fel cerdded i mewn i uffern!

I gerdded yn fy esgidiau arloesol innau a gweld sut antur gefais i, beth am ddilyn fy llwybr?

Cewch gwrdd â mi os ewch i'r tri safle isod a dilyn fy stori...

Castell Cyfarthfa yn 1872 – mae Hetty yn 11 mlwydd oed

Mae fy nheulu newydd symud yma o'm hen gartref ger Sir Gaerfyrddin er mwyn i nhad weithio yn y gwaith haearn. Mae mam yn disgwyl babi – felly bydd 5 ohonom ni blant cyn hir! Fi ydy'r hynaf felly rhaid i mi fynd allan i weithio i helpu i gefnogi'r teulu.

Rydw i wedi dechrau gweithio fel morwyn cegin gefn yn y tŷ mawr sy'n perthyn i'r teulu Crawshay. Mae ganddynt gartref hyfryd ac mae pawb yn dweud fy mod i'n ffodus iawn i gael gwaith yno! Pob dydd byddaf yn ail gynnau Tân y gegin ac yna'n gwagio'r potiau dan gwely. Wedyn rwy'n glanhau'r cyntedd, y pantri, y gegin a'r gegin fach ac yn golchi'r llestri pan fydd y cogydd wedi gorffen paratoi'r brecwast. Drwy gydol y dydd byddaf yn helpu i baratoi llysiau, glanhau a golchi'r llestri. Mae'n ddiwrnod hir, weithiau o 5 y bore tan 10 o'r gloch y nos – felly pan fyddaf yn gorffen, rydw i'n syrthio i mewn i'r gwely ac yn cysgu fel babi. Yn fy mreuddwydion rydw i'n priodi bonheddwr ac yn byw mewn tŷ mawr yn union fel y feistres!

Amgueddfa Pontypridd yn 1877 – mae Hetty yn 16 mlwydd oed

Rydw i'n dod yma i'r capel ar gyfer oedfaon y Sul ac yn yr wythnos, os gallaf. Rydw i'n caru'r capel – mae'n rhoi bywyd i mi y tu allan i'r gwaith – a gobaith am bethau gwell i ddod.

Aethom i Bontypridd i fyw tua blwyddyn yn ôl am fod fy nhad wedi cael swydd yn y gwaith cadwyni mawr. Roedd hwn yn ddyrchafiad mawr ac erbyn hyn mae gennym dŷ cyfan i ni'n hunain – gwell na rhannu fel y gwnaethom ym Merthyr.

Mae'r gwaith cadwyni'n enwog – Brown Lenox yw ei enw. Mae wedi gwneud cadwyni i longau Mr Brunel hyd yn oed.

## Glofa Elliott yn 1883 – mae Hetty yn 22 mlwydd oed

Priodais ddwy flynedd yn ôl i'r mis Rhagfyr yma. Nawr mae fy ngŵr Wyn yn dechrau gweithio mewn Glofa ffansi newydd. Bydd yn un o'r cyntaf i fod yn rhan o'r 'pwll mawr' yng Nghwm Rhymni! Rydw i mor falch ohono! Cafodd ei gyflogi i helpu i agor y Siafft Orllewinol, gyda'r bechgyn eraill a rhygddyd maent yn mynd i newid y byd! Ar ben hynny, rydym newydd ganfod ein bod yn disgwyl ein plentyn cyntaf felly mae hwn yn ddathliad dwbl i ni! Mae bywyd wedi bod yn anodd erioed, ond rydw i'n teimlo bod ein lwc yn newid. Mae pethau da o'n blaenau!

### Beth ddigwyddodd nesaf???

Beth am greu eich diwedd eich hun i stori Hetty – a aeth hi i'r porthladd mawr yng Nghaerdydd, neu oedd hi gerllaw Senghenydd pan gafwyd y trychineb cyntaf yn 1901? Mae llwyth o safleoedd eraill i ysbrydoli eich fersiwn chi o'r hanes – [edrychwrch ar ein rhestr](#). Cofiwch edrych ar yr amseroedd agor cyn mynd!

Anfonwch eich lluniau a'ch straeon atom ar Facebook (Y Cymoedd a Newidiodd y Byd) neu ar Twitter @TVTCTW.

### Wedi mwynhau'r llwybr yma? Lawrlwythwch fwy ar <http://www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers>

Nodwch, mae Hetty yn gymeriad dychmygol ond mae'r lleoliadau a'r digwyddiadau sydd yn ei stori yn rhai go iawn.

**Hello, I'm Hetty – a Valleys Pioneer!**

One of the hundreds of thousands of people who came here in search of a better life during the Industrial Revolution. My family came over the hills from Carmarthenshire, leaving behind our lives on the farm. Our adventure led us to the glowing skies of the ironworks – it was like walking in to hell!

To follow in my pioneering footsteps and see how my adventure turned out, why not follow my trail?

You can download it at [www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers](http://www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers). You'll encounter some great heritage sites on your way and who knows – we may meet again! *Hetty*

---

**Helo, Hetty ydw i – un o Arloeswyr y Cymoedd!**

Dw i'n un o gannoedd o filoedd o bobl a ddaeth yma yn ystod y Chwyldro Diwydiannol i chwilio am fywyd gwell. Daeth fy rheulu dros y bryniau o Sir Gaerfyrddin, gan adael ein bywyd ar y fferm i fynd i fynd newydd. Ar ddiwedd ein taith gwelsom awyr wenfflam y gwaith haearn – roedd fel cerdded i mewn i uffern!

I gerdded yn fy esgidiau arloesol innau a gweld sut antur gefais i, beth am ddilyn fy llwybr? Gallwch lawrlwytho copi ar [www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers](http://www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers). Byddwch yn gweld safleoedd treftadaeth gwych a, pwys a wyr, efallai y cawn gwrrd eto! *Hetty*

 Wales Cymru